***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 711 (Cy. 168)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Mehefin 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 7(1), 8(1), 15(4), 25, 32(2), 32(3), 34(7) a 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044); ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.